**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Ebrill 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Ms J. Hughes, Ms J. McAlpine, A. J. Rutherford, T. Thomas a'r Parch. S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn mynychu:

Y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain Jones

**61. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), S.H. Ratcliffe (yn sâl), Miss S. L. Roberts (ar wyliau) a Miss R. Siddall (ar wyliau).

**62. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | **6 Ebrill 2016** |
|---|---|
| 62.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Hafod Wen a Hailwood, Ffordd Bryn Cwnin, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**Rhif y CAIS: 45/2016/0208/TP**<br>Torri 3 coeden Dderw T1 T2 a T3 i lawr a thocio corun 1 coeden Dderw T4 sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed.<br>Yr Ymgeisydd yw Mr P Walker o 5 Glendower Court, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD:*Gwrthwynebu***<br><br>*Cred y Cyngor y dylid cadw'r coed (T1 – T4) ond tocio'r corun 20% gan Feddyg Coed proffesiynol – Ail Opsiwn a nodwyd yn yr Asesiad Coed Gweledol.*<br><br>*Gofynnir i'r Cyngor Sir archwilio hefyd y niwed a achoswyd i Goeden T1 o ganlyniad i docio gwael fel y nodwyd yn yr Asesiad Coed Gweledol a chymryd camau priodol.* |
| | |

| | |
|---|---|
| 62.2 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u>** 12 Grange Road, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u>** Tynewydd<br><br>**<u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0166/PF**<br>Adeiladu estyniad a newid defnydd o fanwerthu i breswyl i greu tri fflat.<br>Yr Ymgeisydd yw Mr Kiran Parmar o'r un cyfeiriad.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD:</u>*** *Dim gwrthwynebiad ond hoffai'r Cyngor weld yr hysbyseb hanesyddol sydd wedi ei beintio / ei osod ar ochr ddeheuol yr eiddo yn cael ei gadw ac o bosibl ei adfer fel rhan o dreftadaeth adeiledig y Dref. Mae'r hysbyseb yn nodwedd leol adnabyddus a chred y Cyngor bod y cais hwn yn unol â Pholisi RD1 (iii) y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd:*<br><br>*"Amddiffyn a lle'n bosibl gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol lleol"* |
| | |
| 62.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u>** Cyn Safle'r Honey Club, 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0221/PF**<br>Adeiladu gwesty tair seren a bwyty gyda thirlunio cysylltiedig a maes parcio.<br>Yr Ymgeisydd yw Premier Inn Hotels Ltd d/o asiant Walsingham Planning, Brandon House, King Street, Knutsford.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>***: *Dim gwrthwynebiad, ond byddai'r Cyngor yn gofyn am amod yn gofyn i'r datblygwr ddarparu byrddau deniadol solet o gwmpas ffin y safle yn ymgorffori darluniau o'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn oherwydd yr effaith negyddol y mae golwg presennol y safle yn ei gael ar ddelwedd y Dref.* |
| | |

## 63. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: **………………………...**